



Nodau

Dylech ddarllen y canllaw hwn os ydych am wybod a yw'n ofynnol i chi ddatgan (cofrestru) eich safle oherwydd y Rheoliadau Gwastraff Peryglus (y Rheoliadau).

Os yw'n ofynnol i chi ddatgan eich safle, byddwch yn torri'r gyfraith os byddwch yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus neu'n trefnu i unrhyw wastraff peryglus gael ei gasglu o'ch safle.

Pan fyddwch yn datgan eich safle yn unol â'r Rheoliadau, caiff y manylion eu rhoi ar gofrestr a chewch rif cofrestru cynhyrchydd gwastraff peryglus neu 'cod y safle'.

Cyfeirir at hyn yn aml fel proses gofrestru neu ddatgan. Yn y ddogfen hon, defnyddir y termau datgan neu ddatganiad a chofrestru neu gofrestriad yn gyfnewidiol ac maent yn golygu'r un peth.

Mae'r term cludo yn golygu symud gwastraff peryglus o un safle i un arall.

Dim ond i gynhyrchwyr a deiliaid gwastraff peryglus yng Nghymru y mae'r canllaw hwn yn berthnasol. Mae'n rhan o gyfres o ddogfennau sy'n egluro sut mae'r Rheoliadau'n gweithio.

Mae'r canllaw hwn yn egluro p'un a allech gael eich eithrio rhag datgan.

Os yw'n ofynnol i chi ddatgan eich safle, dylech ddarllen ein canllaw [HWR02B: "Sut i ddatgan eich safle"](#).

Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn seiliedig ar yr hyn a wyddom ar hyn o bryd. Gall newid yn y dyfodol os bydd y Gyfraith yn newid, os bydd canllawiau gan y Llywodraeth yn newid neu o ganlyniad i'n profiad o reoleiddio gwastraff peryglus.

Beth yw safle?

Mae'r Rheoliadau'n diffinio safle i gynnwys tir ac unrhyw long neu fath arall o gludiant lle caiff gwasanaeth symudol ei weithredu.

Mae hyn yn golygu y gall unrhyw fan neu gerbyd lle caiff gwasanaeth symudol ei weithredu fod yn safle a bydd angen iddo gael ei gofrestru oni bai ei fod wedi'i eithrio.

A oes unrhyw eithriadau rhag cofrestru?

Dibenion domestig

Nid yw'r Rheoliadau'n berthnasol i wastraff domestig heblaw bod y gwastraff hwnnw yn:

- asbestos a gynhyrchwyd gan gontractwr. Yn yr achos hwn, efallai y bydd yn rhaid i'r contractwr gofrestru'r safle lle caiff y gwastraff ei gasglu (os nad yw'r safle hwnnw wedi'i eithrio; neu
- "gronynnau domestig wedi'u gwahanu" (ac eithrio asbestos). Yn yr achos hwn, ni fydd angen datgan y safle lle caiff ei gasglu. Rhaid datgan y man lle caiff y gwastraff hwn ei gludo (oni bai bod y safle hwnnw wedi'i eithrio).

Gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon

Mae'r Rheoliadau'n nodi lle y caiff gwastraff ei dipio'n anghyfreithlon, y gellir ei symud heb ddatgan y safle hwnnw. Er enghraifft, lle y caiff gwastraff ei dipio'n anghyfreithlon ar dir, gellir symud y gwastraff hwnnw heb gofrestru'r safle.

Os caiff eich holl wastraff peryglus ei gynhyrchu gan weithredwyr gwasanaethau symudol Efallai y caiff holl wastraff safle ei gynhyrchu yn ystod gwaith adeiladu, trwsio neu gynnal a chadw gan un gwasanaeth symudol neu fwy. Yn yr achos hwn, efallai na fydd angen i chi ddatgan eich safle. Mae rheolau ynghylch ystyr gwasanaeth symudol – dylech ddarllen ein canllaw HWR07 Gwasanaethau Symdol am ragor o wybodaeth. Gallwch gael gafael ar y ddogfen hon drwy'r ddolen "Cofrestru neu adnewyddu fel cynhyrchydd gwastraff peryglus"

Unrhyw safle a nodwyd yn ein Datganiad Canllaw ar ddatgan safleoedd

Efallai y byddwn yn penderfynu o dan amgylchiadau arbennig nad oes angen datgan safle. Gallwch gael manylion am y datganiad canllaw hwn ar ein gwefan.

Eithriadau eraill

Os gall safle gydymffurfio ag amodau 1 a 2 isod, yna caiff ei eithrio.

Amod 1: A oes cludydd cofrestredig neu gludydd wedi'i eithrio yn casglu'r holl wastraff peryglus?

Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i wastraff peryglus gael ei gasglu gan naill ai [gludydd cofrestredig](#) neu gludydd wedi'i eithrio. Fel arall, rhaid i'r safle gael ei ddatgan. Mae rheoliadau amgylcheddol eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cludo gwastraff gofrestru â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y gall wneud hynny. (Mae hwn yn fath gwahanol o gofrestriad i ddatgan safle).

Mae cludwyr wedi'u heithrio yn cynnwys:

- awdurdod casglu gwastraff, awdurdod gwaredu gwastraff neu awdurdod rheoleiddio gwastraff;
- cynhyrhydd y gwastraff sy'n cludo ei wastraff ei hun, heblaw am wastraff gwaith adeiladu neu ddymchwel;
- elusen neu sefydliad gwirfoddol.

Os byddwch yn defnyddio cludydd heb ei gofrestru neu nad yw wedi'i eithrio rhag cofrestru i symud eich gwastraff, byddwch chi (a'r cludydd) yn torri'r gyfraith.

Amod 2: Faint o wastraff peryglus rydych yn ei gynhyrchu mewn unrhyw gyfnod o 12 mis?

Mae'r Rheoliadau'n nodi mai dim ond os bodlonir y 'cyfyngiad cymhwyso' y gellir eithrio safle. 500kg o wastraff peryglus yw'r terfyn hwn mewn unrhyw gyfnod o 12 mis. Os ydych yn bwriadu cynhyrchu, casglu neu symud 500 kg neu fwy o wastraff, neu os byddwch yn gwneud hynny, bydd angen i chi ddatgan y safle hwnnw.

Os caiff gwastraff peryglus ei symud o long, nid oes angen i'r llong gael ei chofrestru. Nid oes terfyn ar faint o wastraff peryglus y gellir ei gynhyrchu neu ei symud o long.

Noder: Nid yw gwastraff a gesglir o'ch safle gan ddefnyddio darparwr gwasanaeth symudol yn cyfrif tuag at y terfyn o 500 kg ar gyfer y gwastraff ar eich safle. Fodd bynnag, rhaid i'r casgliadau hyn gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn ein dogfen ganllaw [HWR07 Gwasanaethau Symudol](#).

Nid yw'n ofynnol i gynhyrhydd gwastraff peryglus wedi'i eithrio hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyfrifoldeb cynhyrhydd gwastraff peryglus yw dangos ei fod wedi'i eithrio'n briodol. Nid ydym yn cadw rhestr o'r eithriadau hyn felly ni ddylech gysylltu â ni i gadarnhau hyn.

Hyd yn oed os nad oes angen i gynhyrhydd ddatgan ei safle, mae angen iddo ddilyn rhannau eraill o'r Rheoliadau o hyd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ofyniad i ddefnyddio nodiadau cludo. Er enghraifft, rhaid i swyddfa sy'n symud hyd at 500 kg o wastraff peryglus baratoi nodiadau cludo gwastraff peryglus yn y ffordd arferol hyd yn oed os nad oes angen i'r safle gael ei gofrestru.

Rwy'n rhannu fy safle a / neu fy ardal storio gwastraff ag eraill – a oes angen i mi ddatgan fy safle?

Enghraifft A Os yw safle yn **cynnwys nifer o adeiladau a reolir gan yr un gweithredwr / uned fusnes**, yn gyffredinol bydd yr adeiladau gyda'i gilydd yn gyfystyr ag un safle. Cwestiwn o ffaith fydd p'un a fydd dau adeilad a feddiannir gan yr un person ar yr un safle a ph'un a ellir eu hystyried yn briodol fel yr un safle. Os nad oes unrhyw ffin gyffredin amlwg o amgylch y ddau adeilad, mae'n annhebygol mai'r un safle ydynt ac mae'n fwy tebygol y bydd yn rhaid i'r ddau gael eu datgan ar wahân. Lle byddai un ffin benodol ar gyfer safle, pe na bai priffordd gyhoeddus neu briffordd arall yn rhannu'r safle hwnnw, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn trin y rhannau gwahanol o'r safle ar bob ochr i'r briffordd fel yr un safle.

Yn yr un modd, mewn **bloc tŵr** gall dau lawr cyfagos a feddiannir gan yr un cynhyrchydd fod yn gyfystyr ag un safle. Fodd bynnag, os oes llawr a feddiannir gan gynhyrchydd gwahanol rhwng dau lawr, ni ellir eu trin fel un safle a bydd yn rhaid iddynt gael eu datgan ar wahân.

Enghraifft B Os oes **sawl uned ar wahân o fewn safle**, megis unedau manwerthu mewn canolfan siopa, bydd pob un o'r unedau hynny yn safle ar wahân a bydd angen iddynt gael eu datgan ar wahân. Bydd hyn yn gymwys hyd yn oed os yw'r ganolfan siopa yn trefnu i'r gwastraff cyffredinol gael ei symud i fan casglu canolog ar wahân o fewn y ganolfan. Bydd angen i'r man casglu ar wahân hwnnw hefyd gael ei gofrestru fel safle. Ni fyddem yn disgwyl i nodyn cludo gael ei gwblhau wrth symud y gwastraff o'r safle manwerthu i'r man casglu, ond byddem yn disgwyl i hynny ddigwydd wrth symud y gwastraff o'r man casglu. Byddem yn disgwyl bod gan weithredwr y man casglu system ar waith sy'n ei alluogi i gwblhau'r nodyn cludo'n briodol (gan gynnwys disgrifiad llawn o'r gwastraff, manylion cynhyrchydd y gwastraff, a'r elfennau peryglus) pan gaiff y gwastraff ei gasglu o'r man casglu.

Sefyllfa 1

Uned manwerthu a weithredir gan A	Uned manwerthu a weithredir gan B	Uned manwerthu a weithredir gan C
	Man casglu a weithredir gan X	


Byddai'n rhaid i bob un o'r unedau manwerthu a weithredir gan A, B ac C gael eu datgan ar wahân a byddai'n rhaid i'r man casglu a weithredir gan X hefyd gael ei datgan ar wahân.

Sefyllfa 2

Uned manwerthu a weithredir gan A	Uned manwerthu a weithredir gan B	Uned manwerthu a weithredir gan X
	Man casglu a weithredir gan X	

Byddai'n rhaid i'r unedau manwerthu a weithredir gan A a B gael eu datgan ar wahân a byddai'n rhaid i X ddatgan y safle manwerthu a'r man casglu fel safleoedd ar wahân.

Sefyllfa 3



Byddai'n rhaid i'r unedau manwerthu a weithredir gan A a B gael eu datgan ar wahân a byddai'n rhaid i X ddatgan y safle manwerthu / man casglu mewn un datganiad.

Enghraifft C Gellir cymhwyso'r un egwyddorion yn ymwneud â chofrestru safleoedd a nodir yn Enghraifft B at **safleoedd ysbytai a feddiannir gan sefydliadau amrywiol**. Os oes uned ar wahân a weithredir gan gynhyrchydd gwastraff peryglus, mae'r uned honno yn debygol o fod yn safle ar wahân a dylai gael ei ddatgan.

Example CH Os oes **iard agored gyda sawl gweithredwr** yn defnyddio rhan wedi'i diffinio'n glir o'r iard honno ac yn gyfrifol amdani, dylai pob rhan gael ei datgan. Os nad oes unrhyw ddiffiniad clir, dylid datgan y safle cyfan. Dylid ystyried yr holl wastraff peryglus a gynhyrchir gan bob un o'r cynhyrchwyr ar y safle wrth benderfynu p'un a yw'r safle wedi'i eithrio ai peidio. Os oes unrhyw amheuaeth p'un a yw'r safle wedi'i eithrio ai peidio, gall unrhyw un o weithredwyr yr iard ddatgan y safle. Os na chaiff y safle ei gofrestru a chaiff mwy o wastraff na'r terfyn ei gynhyrchu, gall pob un o'r cynhyrchwyr wynebu camau gorfodi.

Enghraifft D Gellir trin **safle tir halogedig** lle mae'n bosibl bod mwy nag un cynhyrchydd yn gweithredu ar unrhyw adeg benodol (oni bai bod ardal wirioneddol ar wahân a weithredir fel safle ar wahân i'r safle tir halogedig) fel un safle a'i ddatgan unwaith. Yn gyffredinol, prif gontractwr y safle ddylai drefnu'r rhwymedigaeth ar gyfer cofrestru. Ni fyddem yn disgwyl i bob is-gontractwr ddatgan y safle ar wahân.

Rwy'n gweithredu gorsaf drosglwyddo. A oes angen i mi ddatgan fy safle?

Oes. Bydd yn ofynnol i orsafoedd trosglwyddo gwastraff neu fannau casglu ddatgan gan eu bod yn safleoedd sy'n dal gwastraff peryglus. Nid yw datgan yn ymwneud â chynhyrchu gwastraff yn unig.